# Gwybodaeth am gerbydau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

27 Ionawr 2014

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch i chi am eich cais a ddaeth i law ar 18 Rhagfyr, ac am eich amynedd wrth i ni baratoi ymateb llawn. Gofynasoch:

*1. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch nifer y contractau llogi cerbyd/cytundebau hurbwrcas y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo iddynt ar hyn o bryd? Hefyd, a wnewch chi ddarparu manylion ynghylch contractau llogi/cytundebau hurbwrcas y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo iddynt ers 2011?*

*2. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch nifer y bobl a gyflogir fel gyrwyr/chauffeurs gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyfanswm yr arian a wariwyd ar gyflogi pobl yn y rolau hyn ers 2011?*

*3. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch cyfanswm gwariant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar danwydd at ddibenion busnes swyddogol yn 2013/2012/2011? Mae tanwydd yn cynnwys petrol/diesel/nwy petrolewm hylifedig.*

*4. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch nifer y milltiroedd a deithiwyd mewn car at ddibenion busnes swyddogol yn ystod 2013/2012/2011?*

*5. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch nifer y cerbydau sy'n rhan o fflyd y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer busnes swyddogol? A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch gwneuthuriad, model ac oed y cerbydau, a'r gost o'u cynnal a'u cadw yn 2013/2012/2011? Mae costau cynnal a chadw yn ymwneud â threth cerbydau, yswiriant cerbydau, costau cynnal a chadw cerbydau a gwariant ar danwydd.*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn eich e-bost, eglurasoch mai bwriad eich cais oedd casglu gwybodaeth ar gerbydau sydd wedi bod yn eiddo i Gomisiwn y Cynulliad ers 2011 a/neu wedi'u prydlesu gan y Comisiwn yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid ydym wedi cynnwys gwybodaeth am gerbydau a bwrcaswyd cyn 2011, ac nid ydym wedi cynnwys manylion ynghylch nifer y milltiroedd na'r costau tanwydd sy'n berthnasol i gerbydau personol a ddefnyddir ar gyfer busnes swyddogol. Gallwn ddarparu'r wybodaeth honno pe hoffech ei chael.

Rydym wedi ymdrin â'ch cais yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

*1. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch nifer y contractau llogi cerbyd/cytundebau hurbwrcas y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo iddynt ar hyn o bryd? Hefyd, a wnewch chi ddarparu manylion ynghylch contractau llogi/cytundebau hurbwrcas y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo iddynt ers 2011?*

Ar hyn o bryd mae gennym ddau gontract ar waith.
Mae manylion y ddau gontract ar gael ar ein gwefan. Cliciwch ar y linc isod i'w gweld: http://assemblywales.org/cy/gethome/abt-procurement.htm

Mewn ymdrech i leihau ein hôl troed amgylcheddol o ran llogi ceir a defnyddio ceir preifat at ddibenion busnes, rydym yn rhentu car sydd ag allyriadau isel ac a gaiff ei ddefnyddio gan holl staff y Cynulliad.

Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol yn rhesi 5 a 31.

*2. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch nifer y bobl a gyflogir fel gyrwyr/chauffeurs gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyfanswm yr arian a wariwyd ar gyflogi pobl yn y rolau hyn ers 2011?*

Rydym yn cyflogi un unigolyn fel gyrrwr ("y gweithiwr"). Fodd bynnag, nid yw'n bosibl darparu cyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â dyletswyddau gyrru'r gweithiwr ar wahân. Mae hyn oherwydd bod dyletswyddau'r gweithiwr hefyd yn cynnwys darparu cymorth a gwneud gwaith gweinyddol fel rhan o swyddfa breifat y Llywydd. O ganlyniad, un elfen yn unig o ddyletswyddau'r gweithiwr yw gyrru, ac mae'r amser a rennir rhwng gyrru a dyletswyddau eraill yn amrywio o wythnos i wythnos.

Er gwaethaf y sefyllfa a amlinellir uchod, rydym wedi rhoi ystyriaeth i ddatgelu gwybodaeth am gyflog y cyflogai dan sylw.  Ein casgliad yw y byddai datgeliad o'r fath yn groes i egwyddorion diogelu data a, chan hynny, byddai'r wybodaeth hon yn cael ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.  Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

*3. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch cyfanswm gwariant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar danwydd at ddibenion busnes swyddogol yn 2013/2012/2011? Mae tanwydd yn cynnwys petrol/diesel/nwy petrolewm hylifedig.*

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm gwariant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar danwydd ar gyfer cerbyd swyddogol y Llywydd, car y Cynulliad at ddefnydd pawb a cheir a logir.

| **Blwyddyn ariannol** | **Cyfanswm y gwariant ar danwydd** |
|---|---|
| 2010-11 | £11,709.23 |
| 2011-12 | £13,537.14 |
| 2012-13 | £15,157.56 |

*4. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch nifer y milltiroedd a deithiwyd mewn car at ddibenion busnes swyddogol yn ystod 2013/2012/2011?*

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y milltiroedd a deithiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a hynny gan ddefnyddio cerbyd swyddogol y Llywydd, car y Cynulliad at ddefnydd pawb a cheir a logir.

| **Blwyddyn ariannol** | **Nifer y milltiroedd a deithiwyd** |
|---|---|
| 2010-11 | 32,917 |
| 2011-12 | 39,985 |
| 2012-13 | 43,567 |

*5. A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch nifer y cerbydau sy'n rhan o fflyd y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer busnes swyddogol? A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch gwneuthuriad, model ac oed y cerbydau, a'r gost o'u cynnal a'u cadw yn 2013/2012/2011? Mae costau cynnal a chadw yn ymwneud â threth cerbydau, yswiriant cerbydau, costau cynnal a chadw cerbydau a gwariant ar danwydd.*

Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 1, mae gennym ddau gontract ar waith. Mae manylion am y contractau hyn wedi'u darparu isod:

**Cerbyd swyddogol y Llywydd**
**Gwneuthuriad a model:** Audi A8
**Oed y cerbyd:** 2012
(Noder: Mae'r dreth ffordd wedi'i chynnwys yn y contract)

| Blwyddyn ariannol | Yswiriant | Cynnal a chadw | Gwariant ar danwydd |
|---|---|---|---|
| 2010-11 | £2,423.16 | - | £3866.00 |
| 2011-12 | £2,592.76 | £132.48 | £2978.57 |
| 2012-13 | £2,015.06 | £1408.81 | £2073.29 hyd yma |

**Car y Cynulliad at ddefnydd yr holl staff**
**Gwneuthuriad a model:** Ford Fiesta 1.6L Diesel Zetec
**Oed y cerbyd:** 2012
(Noder: Mae'r dreth ffordd a chostau cynnal a chadw wedi'u cynnwys ym mhris y contract)

| Blwyddyn ariannol | Yswiriant | Gwariant ar danwydd |
|---|---|---|
| 2010-11 | £908.42 | £4146.00 |
| 2011-12 | £935.98 | £3894.00 |
| 2012-13 | £976.26 | £3885.96 |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

Mae eich cais yn gofyn am gyfanswm yr arian a wariwyd ar gyflogi gyrwyr/chauffeurs.

Rydym yn cyflogi un person yn y rôl honno. Gan hynny, mae'r wybodaeth hon yn gorwedd o fewn y diffiniad o wybodaeth bersonol sydd i'w weld yn Neddf Diogelu Data 1998 ("Data which relate to a living individual who can be identified …from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller”). Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (“y Ddeddf”), lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor diogelu data gyntaf.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y nodir yn atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998, yn nodi:

> “Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met.”

Wrth fynd i'r afael â phenderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol y gweithiwr, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng hawliau'r gweithiwr ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgeliad. Ein casgliad yw y byddai datgeliad yn annheg. Ceir crynodeb o'n trafodaethau isod.

Byddai datgelu cyflog y gweithiwr yn ymwneud â'r gweithiwr fel unigolyn, a byddai datgeliad o'r fath yn ymwneud ag amgylchiadau ariannol personol y gweithiwr. Ni fyddai gan y gweithiwr ddisgwyliad rhesymol y byddai manylion ei gyflog yn cael eu datgelu. Nid yw hon yn rôl uwch nac yn rôl gyhoeddus; hynny yw, nid yw'r gweithiwr yn gyfrifol am benderfyniadau polisi pwysig ac nid yw'n cynrychioli'r Cynulliad yn y byd y tu allan. Byddai datgeliad, yn ein barn ni, yn achos o ymyrraeth anghyfiawn ym mhreifatrwydd y gweithiwr.

Rydym yn cydnabod bod yna fudd dilys mewn gwybod bod cyrff cyhoeddus yn gwario arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn briodol. Fodd bynnag, yn sgîl natur amrywiol rôl y gweithiwr hwn, rydym yn ymwybodol na fyddai datgelu manylion cyflog y gweithiwr, mewn gwirionedd, yn bodloni eich cais.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i drafod Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998. Un o'r amodau yn Atodlen 2 yw bod yr unigolyn yn caniatâu datgeliad. Cawsom ymgynghoriad â'n gweithiwr ynghylch datgeliad posibl. Gwrthwynebodd y gweithiwr ddatgeliad o'r fath, gan nodi y byddai'n peri gofid iddo.

Yr unig amod arall yn Atodlen 2 a fyddai, o bosibl, yn caniatáu inni ddatgelu gwybodaeth (lle nad oes cydsyniad) yw Amod 6, sy'n caniatáu prosesu data personol os bodlonir y canlynol:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

1. Rhaid bod yna fudd cyhoeddus dilys mewn datgelu'r wybodaeth;
2. Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; a
3. Rhaid sicrhau nad yw'r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen yn hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon y gweithiwr.

Fel y nodwyd uchod, er ein bod yn derbyn bod yna fudd cyhoeddus dilys mewn gwybod bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth, ar yr achlysur hwn, nid ydym yn teimlo y byddai'r datgeliad yn bodloni'r budd hwnnw mewn unrhyw ffordd ac y byddai datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen yn hawl y cyflogai i breifatrwydd. O dan yr amgylchiadau hyn, ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2.